



Gwasanaethau Cefnogi Pobl Ifanc Torfaen

Gwybodaeth i weithwyr proffesiynol

TORFAEN
COUNTY
BOROUGHS



BYWYBODAETH
SERVIC
TORFAEN



Torfaen
Bwrdd Iechyd Lleol
Local Health Board
Torfaen

Gyrfa-Cymru
Careers Wales



TVA

Torfaen Voluntary Alliance
Cynghrair Gwifodol Torfaen



Gwasanaethau Cefnogi Pobl Ifanc Torfaen (TYPSS)

Y Weledigaeth

'Gall pobl ifanc bregus, os rhoddir cefnogaeth effeithiol, anogaeth a chyfleoedd iddynt, ddatblygu sgiliau a'r galluoedd angenrheidiol i'w galluogi i oresgyn eu hanawsterau, cyflawni eu dyheadau, croesi'r bont yn llwyddiannus i fyd oedolion a chyfranogi yn gymdeithasol ac economaidd fel dinasyddion.'

Ein Datganiad O Weledigaeth

Bydd Gwasanaethau Cefnogi Pobl Ifanc Torfaen (TYPSS) yn darparu ymagwedd aml-asiantaethol effeithiol ac effeithlon i gefnogi pobl ifanc rhwng 16 a 21 oed.

Mae fïm TYPSS wedi ymrwymo i gynnig asesiadau cyfannol, mewn partneriaeth lawn gyda'r unigolion ifanc, i flaenoriaethu eu hanghenion unigol ac i ddynodi a chyrchu'r gwasanaethau sy'n fwyaf priodol i'w galluogi i gyrraedd eu potensial llawn wrth iddynt bontio i fyd oedolyn.



Gwasanaethau Cefnogi Pobl Ifanc Torfaen (TYPSS)

Yn gyffredinol mae gan bobl ifanc fregus rhwng 16 a 21 oed anghenion lluosog sy'n aml yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn gofyn am wasanaethau mwy nag un asiantaeth.

Er enghraifft, mae effaith iechyd meddwl pobl ifanc ar eu gallu i gyflawni lefel foddhaol o annibyniaeth wedi ei gofnodi'n helaeth. Mae digartrefedd, yn yr un modd, yn cael effaith sylweddol ar iechyd meddwl unigolyn ifanc, fel y mae'r anallu i weithredu mewn addysg, hyfforddiant neu waith. Mae'r profiad o fod yng ngofal yr awdurdod lleol yn effeithio ar yr holl faterion hyn, ac mae'r holl faterion hyn yn effeithio ar bobl ifanc sy'n gadael gofal.

Mae TYPSS yn cymryd agwedd holistig at fodloni anghenion y bobl ifanc bregus hyn, y bydd y mwyafrif ohonynt o un neu fwy o'r grwpiau canlynol:

- Plant sy'n derbyn gofal sy'n 16+
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET)
- Pobl ifanc ddigartref
- Pobl ifanc sy'n profi problemau iechyd meddwl
- Rhai sy'n gadael gofal rhwng 16 a 21 oed (25 os mewn addysg uwch)
- Pobl ifanc anabl nad oes ganddynt anghenion cymhleth
- Pob unigolyn ifanc arall sydd angen cyngor a chefnogaeth i symud i fyw yn annibynnol.

Mae asiantaethau sy'n cydweithio yn cynnwys aelodau o'r tîm 16+, nyrs seiciatrig CAMHS gymunedol, cydlynnydd cynllun mentora 16+, swyddog gyrfaeodd, Gwasanaeth Ieuencid Torfaen, Prosiect Emphasis, timau tai a digartrefedd, Prosiect Ace ac addysg a hyfforddiant.



Tîm 16+

Crëwyd y Tîm 16+ ym mis Gorffennaf 1999 i gynnig gwasanaeth arbenigol i bobl ifanc rhwng 16 a 21 oed sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol.

Mae gan y tîm ystod o gyfrifoldebau statudol tuag at bobl ifanc sy'n Derbyn Gofal o dan Ddeddf Plant 1989 a'r rhai hynny sydd wedi gadael gofal ac yn derbyn cefnogaeth o dan ofal y Ddeddf Plant (Gadael Gofal) 2000.

Mae'r gefnogaeth a gynigir yn cynnwys cyngor a chymorth gydag:

- Addysg a gwaith
- Iechyd a lles
- Beichiogrwydd a rhianta
- Materion tenantiaeth
- Budd-daliadau
- Troseddu
- Teulu a ffrindiau
- Perthnasoedd
- Ynysu cymdeithasol
- Hunan-barch a hyder
- Materion iechyd meddwl gan gynnwys hunan-niweidio

Mae'r tîm yn ymdrechu i sicrhau newid cadarnhaol i bobl ifanc, i wella'r dyfodol ar gyfer rhai sy'n gadael gofal a chefnogi pobl ifanc i gyflawni eu breuddwydion a gwireddu eu llawn botensial.

Cytunir ar becynnau unigol o gefnogaeth sy'n adlewyrchu anghenion unigol sydd yn aml yn gymhleth, i rai sy'n gadael gofal gyda'r bobl ifanc eu hunain a'u teuluoedd drwy gymorth Cynllunio Llwybrau.

Cynigir cefnogaeth hefyd i rai 16 ac 17 oed sy'n ddigartref o dan adran 17 Deddf Plant 1989.



I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch 01633 647538

TORFAEN
COUNTY
BOROUGH



Nyrs Seiciatrig Gymunedol (NSG)

Mae gan y Nyrs Seiciatrig Gymunedol ar gyfer TYPSS gefndir mewn iechyd meddwl plant a rhai yn eu harddegau a chamddefnyddio sylweddau.

Mae'r NSG yn gweithio mewn dull cyfannol i ymdrin â'r materion a wynebwr gan bobl ifanc a bydd yn:

- Rhoi cyngor i bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ynglŷn ag anghenion iechyd meddwl
- Gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl. Gall y rhain amrywio o deimlo'n isel, pryder, hunan-niweidio, bod â phroblemau emosiynol fel dicter ac ymosodedd, problemau personol gyda pherthnasoedd neu deulu, materion ynglŷn â phroffedigaeth ac amrywiaeth o anawsterau eraill
- Gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol eraill yn y gwasanaeth aml-ddisgyblaethol, ond er hynny mae'r holl gefnogaeth a chyngor a dderbynnir yn gyfrinachol
- Cefnogi pobl ifanc sy'n pontio o'r gwasanaethau iechyd meddwl neu sydd angen cyrchu gwasanaethau oedolion am y tro cyntaf
- Darparu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol
- Cydreddeg gwaith grŵp gyda phobl ifanc

Mae'r NSG ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.00am a 5.00pm.



Cynllun Mentora 16+

Dros y chwe blynedd ddiwethaf, mae'r cynllun mentora 16+ wedi recriwtio a hyfforddi oddeutu 50 o wirfoddolwyr i ddarparu cefnogaeth un i un, annibynnol i bobl ifanc rhwng 16 a 21 oed.

Daw gwirfoddolwyr o bob maes mewn bywyd ac maent yn rhoi ychydig oriau'r wythnos i gynnig cefnogaeth yn y meysydd canlynol:

- Chwilio am swydd
- Cyllidebu
- Coginio
- Sgiliau gofalu am yr hunan
- Sgiliau cymdeithasol
- Rhoi cynnig ar bethau newydd
- Addurno
- Dod o hyd i gwrs hyfforddi
- Mynd i'r gampfa
- Llenwi ffurflenni

TORFAEN
COUNTY
BOROUGH



Mae pobl ifanc sy'n defnyddio'r cynllun wedi mwynhau derbyn cefnogaeth gan rywun annibynnol sy'n rhoi eu hamser yn wirfoddol, yn hytrach na gweithiwr taledig.

Bydd y gwirfoddolwyr yn mynychu cwrs ymsefydlu cyn dechrau ar eu gwaith fel mentor. Cynigir goruchwyliaeth barhaus a hyfforddiant ychwanegol i'r holl fentoriaid gwirfoddol gan gynnwys ar bynciau megis camddefnyddio cyffuriau, Amddiffyn Plant ac ymdrin â hunan-niweidio. Anogir gwirfoddolwyr a phobl ifanc i fynychu digwyddiadau cymdeithasol a gweithgareddau datblygu fîm.

Gellir cael mwy o wybodaeth am fentora oddi wrth elizabeth.leek@torfaen.gov.uk



Gyrfa Cymru Gwent

Mae'r ymgynghorydd gyrfaoedd yn rhoi gwybodaeth a chynghor i bobl ifanc am yrfaoedd, cyrsiau, gwaith neu gyfleoedd hyfforddi.

Mae'r ymgynghorydd yn cynnig cymorth a chefnogaeth gyda:

- Chyfweliadau unigol i helpu pobl ifanc i benderfynu/cynllunio beth i'w wneud nesaf
- Gwybodaeth/cynghor am waith, hyfforddiant, addysg neu gyfleoedd i wirfoddoli
- Ysgrifennu CV
- Llenwi ffurflenni cais
- Gwneud ceisiadau am fudd-daliadau
- Chwiliadau am swydd

Mae Gyrfa Cymru hefyd yn cynnal gwasanaeth o'r enw Porth Ieuenctid. Gallai'r gefnogaeth a gynigir gynnwys rhaglen wythnos o weithdai a chymorth un i un gyda datblygu sgiliau cyfweld. Mae ymgynghorwyr yn helpu pobl ifanc i ddewis yr opsiwn gorau iddynt hwy, dysgu sut i weithio mewn tîm a deall y sgiliau sydd ganddynt i'w cynnig i gyflogwr.



Gwasanaeth Ieuentid Torfaen

Bydd y Gweithiwr Ieuentid a leolir yn Gwasanaethau Cefnogi Pobl Ifanc Torfaen yn darparu cefnogaeth barhaus i bobl ifanc rhwng 18 a 21 oed sydd heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant. Ar y cyd â gweithwyr proffesiynol eraill bydd yn mynd i'r afael â materion megis perthnasoedd diogel, beichiogrwydd yn yr arddegau, delwedd corff a hunan ymwybyddiaeth mewn sefyllfaoedd gwaith grŵp.

Mae'r gweithiwr Ieuentid yn sicrhau bod y deg o hawliau pobl ifanc yn cael eu blaenoriaethu o fewn TYPSS. Hefyd mae'n rhoi mynediad uniongyrchol at ystod o wasanaethau sy'n cynnwys:

- Digwyddiadau preswyl, Gwersyll Haf, gweithgareddau chwaraeon, clybiau Ieuentid, cynllun Gwobr Dug Caeredin
- Cysylltiadau â'r Cyngor Ieuentid a'r Fforwm Ieuentid ac ati
- Cyfleoedd hyfforddi, e.e. cyrsiau OCN preswyl mewn hylendid bwyd, cymorth cyntaf, iechyd rhyw, gwarchod plant yn ddiogel (mae cyrsiau eraill ar gael o wneud cais amdanynt)
- Hyfforddiant am ymwybyddiaeth ryngweithiol ynghylch y deg hawl sydd gan bobl ifanc
- Gweithdai ar faterion fel atal cenhedlu, STI, bwlio, rhyw a'r gyfraith
- Creu cysylltiadau â chanolfannau Ieuentid, gweithwyr Cymunedau yn Gyntaf yn Nhrefddyn a Thornhill, y Gwasanaeth Chwarae, Tîm Trosedd Ieuentid ac asiantaethau eraill
- Hybu'r defnydd o'r Gymraeg
- Hyrwyddo perthnasoedd mwy diogel a mwy iach a thynnu sylw at bryderon am unrhyw berthnasoedd domestig.

Lleolir y gweithiwr Ieuentid yn y prosiect TYPSS bob dydd Llun a dydd Mawrth ac yn Swyddfa'r Gwasanaeth Ieuentid, The Settlement, Pont-y-pŵl bob dydd Mercher, dydd Iau a dydd Gwener (ffôn: **01495 758868** neu **07980 682070**).





Prosiect 'Emphasis'

Ymgysylltu, ysgogi, cyfranogi gyda phobl ifanc digartref a'u cefnogi mewn hunan ddatblygiad.

Mae Llamau yn elusen ar gyfer y digartref sydd wedi bod yn cyflwyno gwasanaethau i bobl ifanc bregus sydd wedi eu hallgau yn gymdeithasol yn Ne Ddwyrain Cymru am dros 20 mlynedd ac ar hyn o bryd mae'n gweithio mewn naw o ardaloedd Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae Llamau yn darparu ystod eang o wasanaethau tai â chymorth, gwasanaethau i fenywod yn unig, cyngor ynglŷn â thai, cynlluniau bond, rhaglen ddysgu amgen a gwasanaethau cyfryngu i deuluoedd.

Prosiect 'Emphasis'

Mae Prosiect Emphasis yn gweithio gyda rhai 14 i 19 oed ac yn cwmpasu Caerffili, Casnewydd a Thorfaen. Mae'n darparu gwasanaethau cefnogi i bobl ifanc nad ydynt yn ymgysylltu, sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Ni fydd y bobl ifanc hyn yn ymgysylltu mewn addysg, gwaith na hyfforddiant.

Derbynnir atgyfeiriadau oddi wrth asiantaethau eraill, teuluoedd neu'r unigolyn ifanc ei hun. Clustnodir Ymgynghorydd Pobl Ifanc i'r unigolyn ifanc a fydd yn gweithio gydag ef neu hi yn unigol am 6-12 mis, er bod modd parhau ar ôl hynny. Bydd dwysedd y gefnogaeth yn uwch ar y dechrau ond bydd yn lleihau dros y 6-12 mis wrth i broblemau gael eu datrys ac wrth i asiantaethau eraill gael eu tynnu mewn i gynnig cyngor arbenigol ynglŷn ag anghenion cefnogaeth yr unigolyn.

Mae'r prosiect Emphasis yn canfod ac yn cyrraedd y bobl ifanc hyn, yn gweithio gyda hwy i greu perthynas o ymddiriedaeth ac empathi ac yna'n darparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i'w helpu i wneud y gorau o'r gwasanaethau sy'n bodoli.





Tai i'r digartref

Mae darpariaeth y gwasanaeth hwn o fewn TYPSS yn sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn cyngor priodol am eu hamgylchiadau tai.

Gall digartrefedd achosi llawer iawn o bryder i bobl ifanc. Bydd swyddog digartrefedd, a leolir o fewn TYPSS yn cysylltu â gwasanaethau eraill y cyngor a sefydliadau yn y sector gwirfoddol i helpu pobl ifanc yr effeithir arnynt gan ddigartrefedd.

Bydd y swyddog yn sicrhau bod yr holl gyngor/cymorth a ddarperir yn cydymffurfio â gofynion Deddf Tai 1996 fel y diwygiwyd hi gan Ddeddf Digartrefedd 2002.

Bydd y Swyddog Atal Digartrefedd yn:

- Cynnig cyngor a chymorth i unrhyw un sy'n meddwl y gallant fod yn ddigartref neu sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref
- Sicrhau y caiff digartrefedd ei atal os yw hynny'n bosibl o gwbl
- Sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu trin mewn modd cwrtais heb fod yn feirniadol a'u bod yn ymwybodol o'u hawl i fod â rhywun o'u dewis yn bresennol mewn unrhyw gyfweiliad i roi cefnogaeth
- Ymchwilio i bob sefyllfa mewn modd priodol a sensitif
- Gweithio gyda gwasanaethau eraill y Cyngor i gynnig pecyn integredig o gefnogaeth a gwasanaethau gofal pan fo angen hynny

Lleolir y Swyddog Atal Digartrefedd yn TYPSS bob bore rhwng 9.00am a 12.30pm (ac eithrio dydd Llun). Ar bob adeg arall cysylltwch â Swyddfa Digartrefedd Pont-y-pŵl ar

01495 766484.



TORFAEN
COUNTY
BOROUGH



BWR
S
TO



Cynllun 'ACE'

Mae Cydlynnydd y Cynllun Gwaith ar ôl Gofal (ACE), ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd, yn targedu holl blant Blwyddyn 11 sy'n Derbyn Gofal ac yn cyfarfod â hwy am ddwy awr unwaith yr wythnos ar ôl ysgol i'w helpu i ennill y sgiliau a'r profiad angenrheidiol y bydd eu hangen arnynt i gael swydd ac i barhau mewn gwaith.

Yn ystod eu gwyliau hanner tymor cynigir lleoliad wythnos o brofiad gwaith o'u dewis eu hunain i'r bobl ifanc a byddant yn derbyn £45 (sy'n cyfateb i'r lwfans hyfforddi) amdano.

Chwilir am gyfleoedd am waith blwyddyn, y telir yr isafswm cyflog amdano, yn unol â dewisiadau gyrfa'r bobl ifanc fel y nodwyd yn eu cynlluniau gyrfa.

Mae'r cydlynnydd yn cynnig cefnogaeth gynhwysfawr a dwys i bob unigolyn ifanc ar y cynllun a hefyd yn cynnig cefnogaeth barhaus ar unwaith i gyflogwyr i ymdrin ag unrhyw faterion a fyddai'n peryglu'r lleoliad.

Trwy gydol y broses mae'r cydlynnydd yn gweithredu fel mentor/hyfforddwr sgiliau bywyd i bob unigolyn ifanc, gan gysylltu gyda gweithwyr cymdeithasol, gyrfaoedd, darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr a gweithwyr proffesiynol addysg.



Addysg a Hyfforddiant

Mae'r gefnogaeth addysgol a'r gefnogaeth hyfforddiant sydd ar gael i TYPSS yn defnyddio cwricwlwm amgen i ymgysylltu â phobl ifanc.

Y grŵp targed yw pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant. Yr amcan yw nid atal pobl ifanc 16+ oed rhag syrthio i'r grŵp hwn yn y lle cyntaf, ond eu hailgysylltu ag addysg a hyfforddiant os ydynt yn gwneud hynny.

Nod y gweithwyr proffesiynol yw ymgysylltu â phobl ifanc a'u hannog i:

- Ymdrin ag unrhyw faterion emosiynol ac ymddygiadol craidd a all rwystro datblygiad eu dysgu
- Ennill cymwysterau mewn llythrennedd a rhifedd, sgiliau ar gyfer gwaith, datblygiad personol a chyflwyno gyrfaoedd
- Datblygu sgiliau personol, cymdeithasol a sgiliau bywyd y bobl ifanc fel y gallant symud yn llwyddiannus i waith, addysg neu rhyw fath o hyfforddiant
- Darparu cymorth ychwanegol yn barhaus i wella eu gallu i ennill a chynnal safle yn y byd gwaith i oedolion.

I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch 01633 647547

Cyf: GGCaT/CS20/Medi2007

